EDWART ap RAFF (fl. 1578-1606), un o feirdd sir Ddinbych

Enw: Edwart ap Raff
Rhiant: Raff ap Robert
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: un o feirdd sir Ddinbych
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Rhiannon Francis Roberts

Mab Raff ap Robert. Mewn cywydd a ganodd yn 1602 'wedi iddo vynd yn hen, ac yn dangos i gerdded gynt' cyfeiria at frwydr S. Quentin, 1557, fel petai'n bresennol ynddi yn fachgen ieuanc. Yn N.L.W. MS. 5282 disgrifir ef fel ' prydydd dall 1587,' ond ni ddywedir hynny yn unman arall. Canodd yn bennaf i uchelwyr Dyffryn Clwyd a cheir marwnadau ganddo i Siôn Tudur (1602) a Simwnt Fychan, (1606). Y mae casgliad o'i waith yn Llanstephan MS 36. Ceir ach un o'r enw yn Llsgr. Pen. 134 (142-3).

Awdur

Rhiannon Francis Roberts, (1923 - 1990)

Ffynonellau

Additional Manuscripts in the British Museum 14879, 14885, 14998, 24980

Cardiff Manuscripts 11-3, 43, 47, 63-4, 83-4

Jesus College Manuscripts 15-6, 18

Archifau LlGC: Llanstephan MS 49: Flyting poetry, &c.

Archifau LlGC: Llanstephan MS 124: Poetry

Archifau LlGC: Llanstephan MS 125: Poetry

Llawysgrifau Mostyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 96, 131, 145, 147

Llawysgrifau Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 72-3, 75, 93, 112, 115, 121, 134 (142-3), 173

NLW MSS 253, 356, 434-5, 552, 567, 644, 673, 722, 1238. 1553, 1559, 1578, 3487, 6496, 6499, 6967, 10248, 11087

Llawysgrif Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru 242

Llawysgrifau Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 3, 5-6

Swansea Manuscript 1

Llawysgrif Chirk Castle yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 3

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732980

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu